



EITEM AR YR AGENDA: 8

PANEL GWEITHREDOL AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

26 Hydref 2015

CYLLIDEB YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB 2015-16 PROSIECTAU ATEGOL – Y DIWEDDARAF

Adroddiad gan Richard Fairhead, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol

Diben yr Adroddiad

- 1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am effeithiau y penderfyniadau a wnaed yng nghyfarfod arbennig yr Awdurdod Tân ac Achub ar 2 Rhagfyr 2014 ynghylch rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaethau arbenigol mewn perthynas ag achub â rhaffau ac achub anifeiliaid mawr, ac adolygu'r trefniadau ar gyfer galwadau sy'n deillio o larymau tân awtomatig.

Cefndir

- 2 Yng nghyfarfod y Panel Gweithredol ar 27 Hydref 2014, bu'r Aelodau'n ystyried amrywiaeth o opsiynau o ran y gyllideb wrth baratoi ar gyfer cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar 15 Rhagfyr 2014 pan fyddai gofyn i'r Awdurdod osod ei gyllideb ar gyfer 2015/16.
- 3 Mewn cyfarfod arbennig o'r Awdurdod Tân ac Achub ar 2 Rhagfyr 2014, cafodd yr Aelodau ger eu bron yr opsiynau a oedd ar gael iddynt o ran arbedion posibl, gan gynnwys gwybodaeth ychwanegol y gofynnodd y Panel Gweithredol amdani'n benodol. Roedd yr wybodaeth yn ymwneud ag arbedion posibl a'r effeithiau risg pe byddid yn rhoi'r gorau i ddarparu rhai gwasanaethau anstatudol penodol ac yn mynd at lai o alwadau yn deillio o larymau tân awtomatig.

- 4 Mewn cyfarfod o'r Awdurdod Tân ac Achub llawn ar 15 Rhagfyr 2014, cadarnhaodd yr Aelodau ba opsiynau o blith y rhai a gafodd eu hystyried yn y cyfarfod arbennig a fyddai'n cael eu gweithredu o 1 Ebrill 2015 ymlaen:
- rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaethau anstatudol achub â rhaffau ac achub anifeiliaid mawr;
 - peidio ag ymateb yn ddi-gwestiwn i alwadau a ddaw o ganlyniad i larymau tân awtomatig.

Gwybodaeth

Achub â rhaffau ac achub anifeiliaid mawr

- 6 Penderfynodd yr Aelodau roi'r gorau i ddarparu'r mathau hyn o wasanaethau achub. Roedd cynllun y prosiect i gael gwared ar y galluoedd hyn yn canolbwyntio ar gyfathrebu'r newidiadau, gyda'r nod o leihau'r effaith ar randdeiliaid, y cyhoedd a'r staff. Yn benodol:
- darparwyd gwybodaeth ysgrifenedig, a chynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd gyda'r sefydliadau eraill hynny sydd hefyd yn ymateb i'r mathau hyn o wasanaethau achub;
 - darparwyd gwybodaeth i'r cyhoedd drwy ddigwyddiadau arbennig, gwybodaeth ar wefan y Gwasanaeth, a rhoddwyd negeseuon ar wefannau'r cyfryngau cymdeithasol;
 - darparwyd briffiadau i'r staff yr effeithir arnynt, a darparwyd canllawiau a hyfforddiant ychwanegol i staff yr Ystafell Reoli sy'n ymdrin yn uniongyrchol â cheisiadau am gymorth yn y mathau hyn o ddigwyddiadau.
- 7 Yn y tabl isod, dangosir nifer y galwadau a gafodd GTAGC rhwng 1 Ebrill 2015 a 12 Hydref 2015;

Math o ddigwyddiad	Galwadau a gafwyd	Aethpwyd allan
Achub â rhaffau	0	0
Achub anifeiliaid mawr	10	1

- 8 Aethpwyd allan yn dilyn ail alwad at y digwyddiad, pryd y dywedwyd bod person yn sownd hefyd. Arweiniodd hyn at anfon peiriant arbenigol i achub o ddŵr a pheiriant tân.

Rhoi'r gorau i fynd at alwadau diangen o ganlyniad i larymau tân awtomatig

- 9 Penderfynodd yr Aelodau gyflwyno polisi cadarnach ar gyfer ymateb i'r mathau hyn o alwadau, gyda'r bwriad o fynd at lai ohonynt.

- 10 Cwblhawyd cynllun prosiect, a oedd yn canolbwyntio ar gyfathrebu ynghylch y polisi newydd, diwygio polisiâu a gweithdrefnau mewnol, a'r trefniadau ar gyfer monitro ac adolygu. Yn benodol, cysylltwyd â'r canlynol:

- cwmnïau sy'n gweithredu o safleoedd sydd â larymau tân awtomatig yn cael eu monitro o bell ac sydd wedi cynhyrchu galwadau diangen o'r blaen. Mae rheolwyr y safleoedd hyn wedi cael gwybod na ddylent ddisgwyl yr un ymateb yn y dyfodol, a chynigiwyd cyngor a chymorth iddynt gan yr adran Diogelwch Tân Busnesau yn y Gwasanaeth ynglŷn â rheoli eu systemau er mwyn cael cyn lleied o alwadau diangen ag y bo modd. Fodd bynnag, rhoddwyd sicrwydd iddynt y bydd y Gwasanaeth yn parhau i ymateb i alwadau 999 o'r safleoedd;
- cwmnïau monitro o bell, i roi gwybod iddynt am y newidiadau;
- partneriaid megis awdurdodau lleol a gwasanaethau brys eraill.

- 11 Cafodd y polisiâu a'r gweithdrefnau eu diweddarau i adlewyrchu'r newidiadau. Cafodd gweithdrefnau newydd eu datblygu ar gyfer yr Ystafell Reoli, a darparwyd hyfforddiant i'r staff.

- 12 Mae'r tabl isod yn dangos manylion y larymau tân awtomatig a gafwyd rhwng 1 Ebrill 2015 a 12 Hydref 2015:

Galwadau a ddaeth	Nifer nad aethpwyd atynt	Nifer lle bu llai o bresenoldeb
685	640	45

- 13 Mae'r ystadegau yn y tabl yn nodi bod 685 o ostyngiad wedi bod yn ymateb y peiriannau tân i alwadau gan larymau tân awtomatig.

14 Gellir rhannu'r arbedion i'r Awdurdod o beidio â mynd at y 685 o alwadau gan larymau tân awtomatig yn ddwy ran benodol:

- arbedion arian parod, sef peidio â mynd at 426 o alwadau gan larymau tân awtomatig wedi arwain at beidio ag anfon criwiau'r system RDS. Arweiniodd hyn at arbedion cost uniongyrchol o £34,719 (drwy ddefnyddio cyfrifiannell costau tybiannol o £81.50, sef cost cyflog criw o bedwar diffoddwr tân gyda rheolwr gwylfa, am awr).
- arbedion nad ydynt yn arian parod, sef peidio ag anfon criwiau amser cyflawn ar ddyletswydd at 264 o alwadau gan larymau tân awtomatig ac felly roeddent wedi gallu defnyddio eu hamser yn fwy effeithiol ar weithgareddau megis gwaith diogelwch cymunedol neu hyfforddiant.

Argymhelliad

15 Bod yr Aelodau'n nodi effaith gadarnhaol dyfodiad y polisïau newydd.